

Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Crynodeb



2015 - 2018

I weld y fersiynau llawn o Rannau 1 a 2 o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, edrychwch ar ein gwefan ar www.siryfflint.gov.uk/EinCyfle.

Cyflwyniad

Mae ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) mewn dwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn rhagfynegi'r cyllid y mae'r Cyngor yn debygol o'u cael yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae'r ail ran Cwrdd â'r Her Ariannol yn amlinellu cynlluniau ac atebion ar gyfer rheoli gyda llai o gyllid yn ystod y cyfnod tair blynedd hwn. Mae'r ddogfen yn grynodeb o'r ddwy ran.

Mae ein cyllid yn lleihau, fesul blwyddyn, drwy ostyngiadau mawr yn y grantiau yr ydym yn dibynnu arnynt gan y Llywodraeth. Mae'n rhaid i ni hefyd gwrrd â'r pwysau ar gostau, megis chwyddiant, gyda llai o arian i'w ddefnyddio. Mae chwyddiant, cynnydd yn y galw am wasanaethau hanfodol, e.e. gofal cymdeithasol, a chost ymrwymadau cyfreithiol a orfodir arnom, e.e. diwygio pensïynau, oll yn rhoi straen ar gyllideb sy'n lleihau.

Ystyried yr Her

Mae cynghorau'n dibynnu'n fawr ar grantiau blynyddol gan y Llywodraeth i ariannu'r gwasanaethau lleol yr ydym yn eu darparu i gymunedau lleol. Mae ein cyllid yn lleihau, fesul blwyddyn, drwy ostyngiadau mawr yn y grantiau hyn. Rydym yn rhagweld 'bwlch' o £52.8m yng nghyllid y Cyngor yn ystod y cyfnod tair blynedd rhwng 2015/16 a 2017/18. Ar sail yr wybodaeth ddiweddaraf a mwyaf dibynadwy sydd ar gael, nid yw'n bosibl sicrhau y bydd yr hyn a ragfynegir yn gweithio allan fel y tybiwyd, a gallai sefyllfa ariannol y Cyngor wella neu waethygu dros amser



Yn y setliad blynyddol lle mae'r Llywodraeth yn penderfynu faint o arian i'w neilltuo ar gyfer llywodraeth leol, arferid darparu ar gyfer chwyddiant a phwysau eraill, ac roedd cynghorau'n cael eu hariannu i gwrrd â'r ffactorau hyn. Nid felly y mae hi mwyach. Mae cynghorau bellach yn wynebu pwysau dwbl gyda gostyngiad gwirioneddol yn eu grant blynyddol ar y naill law, a diffyg diogelwch ariannol ar gyfer y pethau ychwanegol y mae'n rhaid iddynt eu hariannu ar y llaw arall.

Dyma pam fod y targedau blynyddol ar gyfer gostyngiadau yn y gyllideb neu 'fychau' ariannu sydd i'w cau mor uchel.

Mae'r 'bylchau' blynyddol ar gyfer Sir y Fflint wedi eu cynnwys yn Nhabl 1.

Crynodeb o'r rhagolygon ar gyfe 2015 - 2018

Gwariant	2015/16	2016/17	2017/18 Cyfanswm	
	£m	£m	£m	£m
Pwysau Cenedlaethol	0.9	0.4	0.3	1.6
Pwysau Lleol	6.2	2.5	1.2	9.9
Chwyddiant	4.1	4.1	4.3	12.5
Pwysau Gweithlu	2.5	9.4	3.7	15.6
Incwm				
Gostyngiad yn y Grant Cymorth Refeniw (3.5%)	6.6	6.5	6.3	19.4
Cynydd yn y Dreth Gyngor (3%)	(2.0)	(2.1)	(2.1)	(6.2)
Bwlch Rhagamcanol	18.3	20.8	13.7	52.8

Mae bwlch ariannu cronuss o dros £50m yn erbyn cyllideb net o tua £250m yn her fawr i unrhyw gyngor. Mae'r her yn fwy cymhleth ac anos oherwydd dau ffactor – yr anallu i broffwydo lefelau cyllid penodol ar gyfer llywodraeth leol, a nifer y blynyddoedd y bydd yn rhaid i'r sector cyhoeddus ymdopi â gostyngiadau cynyddol a dwys mewn grant gan y Llywodraeth.

Mae'r anallu i broffwydo'n deillio o'r ffaith nad oes cynllun tymor canolig gan y Llywodraeth sy'n amlinellu, gyda lefel resymol o sicrwydd, yr adnoddau a neilltuir i lywodraeth leol, ac yn ei dro, i bob cyngor yn unigol.

Mae'r her hynod anodd yn deillio o gynlluniau ariannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ail-gydbwyo'r ddyled genedlaethol fel prif nodwedd o'i bolisi economaidd. Gellir disgwyl i'r gostyngiadau blynyddol parhaus mewn gwariant cyhoeddus cenedlaethol barhaus am weddill y degawd yn seiliedig ar bolisi'r Llywodraeth ac ar werthuso ei effeithiau gan sylwebwyr dibynadwy megis Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Nid yw Llywodraeth Leol yn Lloegr wedi cael eu diogelu rhag toriadau mewn gwariant cyhoeddus fel rhai gwasanaethau cyhoeddus eraill, fel y GIG, datblygiad sydd bellach yn cael ei efelychu yng Nghymru gyda llywodraeth leol yn cael llai o flaenoriaeth.

Mae llywodraeth leol yng Nghymru'n dibynnu mwy ar grantiau gan y Llywodraeth na'r

sefydliadau sy'n gymheiriaid yn Lloegr. Mae hyn yn golygu bod cyngorau yng Nghymru'n agored i fygythiad uwch o ostyngiad mewn cyllid yn sgil diffyg rhyddid a hyblygrwydd tebyg fel cadw Ardreth Annomestig Genedlaethol (NDR) ychwanegol eu hincwm 'cyfraddau busnes' drwy strategaethau llwyddiannus ar gyfer hybu twf busnesau lleol.

The accuracy of the forecast set out for Flintshire will be determined by a number of factors. Government decisions on funding, trends in inflation, national employment policy and pay trends, and pressures on services through demographic change and Government policy, will all come into the mix.



Cyngor Effeithlon ac Arloesol

Mae Sir y Fflint wedi sicrhau tua £60m o arbedion effeithlonrwydd yn y gwariant canolog neu'r 'Gronfa Gyllidol' dros yr wyth mlynedd ariannol diwethaf o 2008/09 hyd nawr. Yn aml, mewn blynyddoedd cyn hyn fe wnaed newidiadau yn y gyllideb er mwyn ail fuddsoddi o'r naill wasanaeth i'r llall er mwyn cefnogi blaenoriaethau a ystyrir yn bwysig gan y Cyngor. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwnaed newidiadau yn y gyllideb i ariannu'r 'bwlich' yn y gyllideb flynyddol a achoswyd gan ostyngiad cenedlaethol mewn cyllid llywodraeth leol. Mae'r ffaith mai'r ddwy flynedd ariannol ddiwethaf o 2014/5 a 2015/16 sydd i gyfrif am bron i £25m neu 45% o gyfanswm y ffigwr hwn yn dangos bod sefyllfa ariannol Sir Fflint yn dirywio.

The Council is cost efficient against the Mae'r Cyngor yn gost-effeithlon yn erbyn y meincnod o orfod sicrhau targedau cynyddol fawr o effeithlonrwydd ac arbedion i gau'r 'bwlich' yn y cyllid blynyddol drwy fod yn arloesol:

- Lleihau o bron i 50% o swyddi uwch reolwyr a'u cefnogaeth
- Lleihau rhwng 25-30 % o reolwyr canol
- Lleihau dros 40% o swyddi gweinyddol a chleryddol
- Bod pob gwasanaeth ar y trywydd iawn i sicrhau targedau lleihau costau o 30% (ac eithrio addysg a gofal cymdeithasol)
- Rhaglenni diswyddo gwirfoddol ar raddfa fawr ar gyfer staff sydd heb fod yn athrawon.
- Gostyngiad o 6% yn nifer staff heb fod mewn ysgolion yn ystod y 12 mis diwethaf yn unig
- Rhannu adeiladau trwy gyd-leoli gyda phartneriaid yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Canolfan Byd Gwaith a Choleg Cambria
- Lleihau swyddfeydd ar sail 16% drwy ddulliau mwy darbodus o weithio
- Caffael neu swmp brynu gyda chynghorau eraill i gael gwell dël e.e. caledwedd ar gyfer cyfrifiaduron
- Integreiddio gwasanaethau â chynghorau eraill yn y rhanbarth er mwyn rhannu costau e.e. addysg

- Masnachu gyda chynghorau eraill mewn gwasanaethau i rannu costau e.e. lechyd Galwedigaethol
- Stopio masnachu mewn gwasanaethau lle mae'r farchnad yn perfformio'n well, e.e. gwastraff masnachol
- Gwahodd cymunedau lleol i berchnogi adeiladau a chyfleusterau lleol a drysorir drwy 'drosgrwyddo asedau cymunedol'
- Newid nifer o wasanaethau sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol gan y Cyngor i fod yn fodelau darparu newydd eraill a lleihau eu lfel o 'gymorth ariannol' cyhoeddus o ganlyniad

Mae gwaith arloesol diweddar yn dangos sut mae'r Cyngor yn arloesi i wneud pethau'n wahanol. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu Cwmni Masnachu ym mherchnogaeth lwyr y Cyngor – "Cartrefi Newydd" i helpu i ddarparu cartrefi i bobl leol, rhaglen RhTAS (Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol) i adeiladu tai'r Cyngor a thai fforddiadwy newydd; newid gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phroblemau iechyd meddwl ac anabledau dysgu i fenter gymdeithasol newydd, o'r enw "Double Click", i'w diogelu yn y dyfodol.

Mae'r cyfleoedd i arloesi fel hyn yn prinhaus; mae'r cyfleoedd i arbed arian yn lleihau law yn llaw â nhw.

Tabl 2 - Targedau Effeithlonrwydd Blynyddol y Cyngor 2008/09 - 2015/16

Blwyddyn	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16
Cyllideb	226.419	233.335	240.408	239.896	241.203	258.825	253.718	249.979
Targed £	5.654	3.803	6.151	8.920	4.716	5.331	11.950	12.874
Targed %	2.50	1.63	2.56	3.72	1.95	2.06	4.70	5.15

Cyngor wedi ei Ariannu'n Isel

Mae cynghorau yng Nghymru'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy ddull o'r enw Fformwla Ariannu Llywodraeth Cymru. O fewn y fforwm hwn cyfrifir neu meincnodir yr hyn sydd ei angen ar bob cyngor, hynny yw, yr Asesiad Gwariant Safonol (ASG). Mae'r Asesiad Gwariant Safonol wedi ei seilio ar ffactorau'n cynnwys demograffeg, newid o ran poblogaeth ac amddifadedd. Er mai dull cyfrifo damcaniaethol yw'r ASG mae'n bwysig er mwyn penderfynu faint o gyfran o'r cyllid cyhoeddus a neilltuir ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru sy'n cael ei roi i Sir y Fflint. Ar gyfer Sir y Fflint daw tua 65% o'n cyllid blyneddol gan Lywodraeth Cymru drwy'r fformwla hwn. Mae fformwla Ariannu'r Llywodraeth Leol yn gymhleth a damcaniaethol. Tra gellid dadlau bod y fformwla'n dosbarthu'r arian sydd ar gael yn deg rhwng dau ddeg dau o awdurdodau lleol ar sail angen, ni chynlluniwyd y fformwla ar gyfer sefyllfa lle'r oedd cyfanswm y cyllid a rennid drwyddo'n gostwng yn sylweddol.



Mae gan siroedd fel Sir y Fflint anghenion nad ydynt yn cael eu cydnabod yn ddigonol mewn fformwla dechnegol nad yw'n gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer hyblygrwydd ac eithriadau.

Er enghraifft, mae Sir y Fflint yn sir lled-wledig gyda nifer o drefi sirol o'r un maint lle mae angen gwasanaethau lleol ar gymunedau. Felly mae'n rhaid i'r Cyngor reoli rhwydwaith o asiantaethau gwasgareddig e.e. ysgolion, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd a chanolfannau ailgylchu. Daw amser pan na fydd yr arian y mae siroedd yn ei dderbyn drwy'r fformwla'n ddigon i gynnal gwasanaethau mewn ffordd sy'n debyg i'r cyfluniadau presennol. Mae hyn yn

golygu y bydd gwasanaethau lleol yn wynebu newidiadau mawr wrth i ni fethu â chynnal y patrwm presennol. Mae'r gost o redeg ysgol uwchradd yn effeithlon o'r naill gyngor i'r llall, neu brif ganolfan hamdden, yn debyg, waeth beth fo'r ffactorau, fel amddifadedd a natur wledig. Mae'r grant yr ydym yn ei dderbyn gan y Llywodraeth bellach yn annigonol i gynnal gwasanaethau lleol i'r lefelau y mae'r cymunedau wedi arfer â nhw. Felly yn achos cynghorau â chyllid isel rhaid gofyn faint o ysgolion neu ganolfannau hamdden all y cyngor fforddio eu cadw'n agored a'u rhedeg, yn hytrach na pha mor effeithlon y gall pob un ohonynt gael eu cynnal yn unigol.

Mae Sir y Fflint yn y 19eg safle allan o 22 cyngor o ran faint o arian y mae'n ei dderbyn gan y Llywodraeth drwy'r fformwla yn ôl bob pen o'r boblogaeth yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Fel cyngor sy'n cael ei ariannu'n isel, mae'r cyfleoedd i sicrhau arbedion, a cheisio cynnal gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cefnogi a gwasanaethau cymunedau lleol, wedi eu cyfyngu'n fawr.

Er mwyn archwilio a dangos a yw Sir y Fflint yn gyngor sy'n cael ei ariannu'n isel, buom yn gweithio gyda Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg (CIPFA) i ddarparu cyngor.

Mae'r adroddiad hwn yn dod i'r casgliad, 'ar sail yr ymchwil a wnaed yn defnyddio setiau data a gyhoeddwyd yn genedlaethol, gallwn ddod i nifer o gasgliadau petrus. Gallwn ddod i'r casgliad bod:-

- Bod Sir y Fflint yn awdurdod gwariant isel ar Addysg a Gofal Cymdeithasol;
- Bod Sir y Fflint yn sicrhau perfformiad ar lefel cymharol uchel yn y ddau wasanaeth yma er gwaetha'r gwariant isel;
- Bod Sir y Fflint yn gwario lefel uwch na'r cyfartaledd ar briffyrdd;
- Bod Sir y Fflint yn sicrhau perfformiad ar y lefel uchaf yng Nghymru o ran mesur perfformiad ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael.'

Dylid ychwanegu at yr uchod fod Sir y Fflint wedi gweld cynnydd na welwyd ei debyg yn y lefelau galw am Wasanaethau Plant yn y ddwy flynedd ddiwethaf a'i fod wedi gorfod buddsoddi mwy yn y maes hynod sensitif hwn o wasanaethau cymdeithasol er mwyn ymdopi.

Wrth gadarnhau fod gan Sir y Fflint 'Asesiad Gwariant Safonol isel' oherwydd yr ystategau penodol yn y fformwla cyfrifo a lefel isel o Gyllid Allanol Cyfun, mae'r dadansoddiad annibynnol yn pwysleisio fod Sir y Fflint yn derbyn llai o arian o dan y system bresennol. Pam fod hyn yn bwysig? Os yw addysg a gofal cymdeithasol yn cyfrif am ddwy ran o dair o wariant y Cyngor, a'n bod eisoes yn gwario'n gymharol isel arnynt - ar wariant fesul disgybl mewn ysgolion ac ar wariant y pen o'r boblogaeth oedolion ar gyfer gofal cymdeithasol - yna mae'n anochel nad oes llawer o le i fod yn fwy cost effeithlon. O ystyried bod Sir y Fflint yn perfformio'n dda yn y ddau faes gwasanaeth, yna bydd unrhyw ostyngiad sylweddol mewn gwariant yn cael effaith uniongyrchol ar berfformiad ar draul disgyblion a myfyrwyr, a phobl leol y mae angen gofal a chymorth arnynt. Er ei bod yn ymddangos bod lle i leihau gwariant ar gynnal priffyrdd, byddai unrhyw ostyngiad o'r fath yn effeithio ar safon y ffyrdd lleol y mae pobl yn eu defnyddio. Efallai mai ffyrdd Sir y Fflint yw'r rhai sy'n cael eu cynnal orau yng Nghymru ond mae cyflwr ein ffyrdd yn dal i ddirywio.

Sut ydym yn Perfformio

Yn 2014/15 Llwyddodd Sir y Fflint i wneud yn well na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 16% o'r dangosyddion perfformiad cenedlaethol y mae cynghorau'n eu defnyddio ac roedd ymysg y tri chyngor a oedd yn perfformio orau yn 20% o'r dangosyddion hyn

Lle'r oeddem yn perfformio orau:

- y nifer uchaf o bobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant am y tair blynedd ddiwethaf
- cyrhaeddiad addysgol – lefel TGAU Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg – ar y brig am y tair blynedd ddiwethaf
- presenoldeb cyson uchel mewn ysgolion - safle gyntaf neu ail safle am y tair blynedd ddiwethaf
- cynlluniau gofal ar gyfer cleientiaid Gwasanaethau Cymdeithaso yn cael eu paratoi'n brydlon; y perfformiwr gorau am ddwy flynedd
- ffyrdd yn y cyflwr gorau am y tair blynedd ddiwethaf

Mae'r Arolwg Cyhoeddus Cenedlaethol yn dangos bod y Cyngor yn yr ail safle yng Nghymru am ddarparu gwasanaethau o safon dda yn unol â barn trigolion.

Ein Strategaeth Ariannol

Mae tair rhan i strategaeth ariannol y Cyngor – diwygio gwasanaethau, stiwardiaeth ariannol gorfforaethol a gweithio gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r ddwy ran gyntaf yn seiliedig ar ddiwygio lleol a dewis. Mae'r drydedd yn seiliedig ar ddewis a gwneud penderfyniadau gan ac o fewn y Llywodraeth. Mae'r tair rhan yn dibynnu ar ei gilydd. I'r strategaeth lwyddo, bydd angen gwneud cynnydd ym mhob un o'r tair rhan.

Mae Sir y Fflint yn sir effeithlon ac arloesol ac yn gyngor sy'n cael ei ariannu'n isel. Fel cyngor gyda sylfaen adnoddau cymharol isel, ychydig o gyfleoedd sydd gennym i gau'r blwch ariannol drwy arloesi'n lleol, heb orfod gwneud newidiadau neu doriadau pellach a dyfnach i wasanaethau, neu hyd yn oed eu cau ar raddfa na welwyd ei thebyg yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

Mae cyngorau a chyrrff cyhoeddus eraill yn rhan o system ehangach o gyllid sector cyhoeddus. Tra dylid herio a disgwyl i gyngorau fod yn effeithlon ac arloesol, a gwneud dewisiadau lleol i leihau eu costau er mwyn cyfrannu at wneud y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus fel rhan o raglen 'caledi' y Deymas Unedig, ni allant weithredu ar eu pennau eu hunain ac mae angen i lywodraethau rannu'r cyfrifoldeb.

Mewn system ariannol lle mae cyngorau yng Nghymru'n dibynnu ar grant y Llywodraeth am hyd at 75% o'u referniw blynyddol ar gyfer gwasanaethau prif lif, mae'r gallu i weithredu'n hyblyg gyda'r cyllid y maent yn ei

dderbyn wedi ei gyfyngu. Er enghraifft, gall polisïau cymdeithasol neu ddeddfwriaeth newydd roi pwysau ariannol newydd ar gyngorau. Os yw llywodraethau eisïau newid cymdeithasol neu gyfreithiol, yna mae'n ddyletswydd arnynt i ystyried yn ofalus y canlyniadau o ran cyllid; fel arall, mae'n anochel y bydd y cyllidebau ar gyfer gwasanaethau lleol presennol o dan straen cynyddol.

O dan **ran un** o'r strategaeth ariannol mae'r Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am gyfrannu at ddiwygio a moderneiddio gwasanaethau lleol drwy ei gylluniau busnes 'portffolio' gwasanaethau tair blynedd. Rhaid i bob gwasanaeth a gwasanaethau cefnogi corfforaethol, ac eithrio addysg a gofal cymdeithasol gyrraedd targedau i leihau costau ar sail 30%. O dan **ran dau** mae'r Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am ddefnyddio arian corfforaethol yn ddarvoudus, er enghraifft cwrdd â chostau chwyddiant, codi incwm, a rheoli costau gweithlu. O dan **ran tri** rydym yn amlinellu disgwyliadau realistig Llywodraeth Cymru fel ein prif gyllidwr.

Targedau Arbedion Cynllun Busnes 2015/16 – 2017/18

Portffolio	2015/16 £m	2016/17 £m	2017/18 £m
Cynllunio a'r Amgylchedd	0.941	0.422	0.255
Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth	2.570	2.590	3.405
Gofal Cymdeithasol	2.068	0.788	1.984
Addysg ac Ieuenctid	1.459	0.382	1.520
Cymuned a Menter	1.565	1.209	0.787
Pobl ac Adnoddau	0.385	0.385	0.730
Llywodraethu	0.248	0.315	0.725
Newid Sefydliadol	1.306	1.272	0.902
Cyfanswm Arbedion Cynllun Busnes	10.541	7.363	10.308

Cynigion Arbedion Cyllid Corfforaethol 2015/16

Pwnc	Cynnig	Arbedion/Twf £m
Rheoli Chwyddiant	Amsugno risg chwyddiant yn rhannol	1.0
Gorbenion Corfforaethol	Gostyngiad dethol mewn darpariaethau	1.0
Fformiwlâ Ariannu Ysgolion	Buddsoddi mewn ysgolion a reolir	2.5
Trethu Lleol	Cynnydd ychwanegol yn y Dreth Gyngor	0-1.8
Incwm Lleol	Cynnydd yn y taliadau a godir	0.5
Cyfanswm		5-6.8

Ffordd Ymlaen

Mae Sir y Fflint mewn sefyllfa na welwyd ei thebyg o'r blaen o ran gorfod rheoli toriadau ar y raddfa hon yn y gyllideb. Felly hefyd Llywodraeth Cymru. Os yw cynghorau am symud ymlaen drwy'r amseroedd heriol hyn - gyda gwasanaethau lleol y mae cymunedau'n dibynnu arnynt yn aros fel y maent - yna mae angen i gynghorau a'r llywodraeth weithio'n agos i bwmpas cyffredin.

Mae'n hysbys bod Sir y Fflint yn cael ei ariannu'n isel. Mae hefyd yn hysbys ei fod yn perfformio'n gadarn o ran y safonau y mae'n eu darparu i wasanaethau lleol, gyda rhagoriaeth mewn gwasanaethau allweddol fel addysg a gofal cymdeithasol.

Mae Sir y Fflint yn cael ei gydnabod yn genedlaethol fel cyngor arloesol wrth geisio dod o hyd i atebion i sicrhau bod ei wasanaethau'n gost effeithlon, yn wydn, a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Un pwynt sylfaenol yw nad yw graddfa a chyflymder y toriadau cynyddol yn y gyllideb flynyddol yn caniatáu amser i arloesi. Er bod ein rhaglen leol ar gyfer gweithio gyda chymunedau i drosglwyddo asedau cymunedol i berchnogaeth y gymuned, a'n rhaglen leol i greu Modelau Darparu Eraill ar gyfer gwasanaethau a ddewiswyd, yn mynd rhagddi'n dda, mae angen amser a lle iddynt ddwyn ffrwyth. Felly hefyd ein cynlluniau busnes er mwyn parhau i foderneiddio gwasanaethau. Os na neilltuir amser ar gyfer ein cynlluniau, a'n bod yn cael ein rhuthro i wneud newidiadau, yna bydd y prif wasanaethau mewn risg difrifol.



Fel pob sir mae Sir y Fflint wedi ei ddylanwadu gan ei hanes a natur ei chymunedau. Rydym wedi nodi ein heriau o ran rheoli Sir y Fflint fel sir wasgareddig sydd â nifer o drefi sirol balch ac annibynnol. Mae'r Cyngor yn ceisio cefnogi a diogelu pob tref sirol drwy sicrhau bod gan eu cymunedau wasanaethau ac amwynderau lleol sydd ar gael yn hwylus. Bellach ni fyddwn yn gallu cynnal ein rhwydweithiau o wasanaethau lleol heb rywfaent o ryddhad rhag y toriadau di-baid yn y gyllideb.

Mae'r rhestr hir o wasanaethau a fydd yn wynebu toriadau mawr os na fydd ei strategaeth yn cael ei chefnogi'n gyffredinol:-

- gostyngiad sylweddol yn y cyllidebau a roddir i ysgolion lleol
- dileu gwasanaethau cymdeithasol e.e. gofal dydd
- cau neu werthu cartrefi preswyl
- dileu gwasanaethau hawliau lles
- toriadau yn y gwasanaeth graeanu ffyrdd yn y gaeaf i'r lefel isaf bosibl
- cau canolfannau hamdden
- cau adeiladau cymunedol
- toriadau mewn gwasanaethau rheoli arfordirol cefn gwald
- darparu gwasanaethau casglu gwastraff ar gyfer tair yn llai aml
- cau canolfannau ail-gychu lleol ar gyfer tair
- tynnu'n ôl yr holl gymorth ariannol i fysiau sy'n cefnogi ffyrdd bysys lleol llai masnachol
- tynnu'n ôl ein grant i Theatr Clwyd
- lleihau cludiant a ddarperir i ddysgwyr yn ôl a blaen i ysgolion a cholegau
- cau gwasanaethau cefnogi busnes a dim cefnogaeth yn y dyfodol i dwristiaeth
- dileu swyddogaethau ecoleg a bioamrywiaeth
- lleihau safonau cynnal ar gyfer ein rhwydwaith hawliau tramwy
- lleihau cefnogaeth ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd
- dileu ein cymorth ariannol ar gyfer Dyffryn Maes Glas

Mae cynghorau yng Nghymru'n dibynnu'n fawr ar grantiau llywodraeth i ariannu eu darpariaeth. Mae hynny'n fwy gwir am Gymru na Lloegr. Dyma pam, o fewn ein strategaeth tair rhan, ein bod yn galw am fwy o ryddid i'r Cyngor allu bod yn entrepreneuriaidd.

Os yw Cymru am wynebu 'toriadau fel sydd yn Lloegr' yna mae angen i gynghorau yng Nghymru gael pwerau a rhyddid fel rhai sydd yn Lloegr er mwyn gallu addasu.

Mae'r Cyngor yn chwarae ei ran ac mae wedi nodi tua dwy ran o dair o'r targed ariannol ar gyfer 2016/17. Fel Cyngor aeddfed a chyfrifol, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i atebion ar y cyd. Mae angen rhoi cefnogaeth i Lywodraeth leol gan roi'r brif flaenoriaeth i ariannu gofal cymdeithasol ac iechyd.

Mae'n cais i Lywodraeth Cymru am rywfaint o ryddhad yn seiliedig ar achos pedwar pwynt:-

- Cyfyngu'r gostyngiad blynyddol yn y Grant Cymorth Refeniw i 2.5% ar gyfer 2016/17 a 2017/18
- Tynnu capiau codi tâl a rhoi'r rhyddid i'r Cyngor adfer costau am rai gwasanaethau
- Buddsoddi 25% neu fwy o'r cyllid GIG newydd sydd wedi'i basportio i Gymru gan Lywodraeth y DU mewn gofal cymdeithasol
- Ariannu'r Cynllun Gostyngiad yn y Dreth Gyngor yn llawn fel cynllun lles cenedlaethol

Mae'n anochel bod y Strategaeth hon yn canolbwyntio ar 2016/17 fel y flwyddyn gyllidebol nesaf y mae angen i ni gynllunio ar ei chyfer. Yn yr un modd, rydym hefyd yn cadw golwg ar 2017/18 a blynyddoedd cyllidebol dilynol wrth gynllunio ymlaen llaw mewn ffordd gyfrifol a chynaliadwy.

Mae Sir y Fflint wedi cyrraedd 'pwynt tyngedfennol'. Ni fydd ad-drefnu llywodraeth leol yn digwydd am rai blynyddoedd eto, ac nid yw hynny ynddo'i hun yn ateb i'r her ariannol, na chwaith unrhyw drafod am sicrhau effeithlonrwydd mewn costau 'swyddfa gefn'. Bydd y penderfyniadau y mae'n rhaid i Lywodraeth y DU, a Llywodraeth Cymru eu gwneud yn y misoedd nesaf yn diffinio dyfodol gwasanaethau cyhoeddus lleol.

Rydym yn galw ar gymunedau lleol i sefyll i fyny dros eu gwasanaethau lleol drwy weithio gyda ni, boed hyn i:-

- ddeall a bod yn amyneddgar gyda'r newidiadau y bwriadwn eu gwneud
- cynnig a gweithio gyda ni i drosglwyddo gwasanaethau i'r gymuned
- codi eu llais fel bod y rhaid sydd â grym i wneud penderfyniadau yn clywed eu barn.

I weld fersiynau llawn o Rannau 1 a 2 o'r Strategaeth
Ariannol Tymor Canolig edrychwch ar ein gwefan
www.siryfflint.gov.uk/EinCyfle